

## Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cyhoeddi rhestr swyddogol o Sioe Awyr y Rhyl 2022

Mae'r arddangosiadau yn barod, mae'r awyrennau yn tanio ac mae'r torfeydd yn barod am benwythnos o hedfan ysblennydd yn y Rhyl y penwythnos hwn.



Mae Sioe Awyr arobryn y Rhyl yn ôl ac mae Hamdden Sir Ddinbych wedi cyhoeddi'r rhestr swyddogol ar gyfer y penwythnos, gan gynnwys y Saethau Cochion a'r Typhoon sydd wedi'u cadarnhau am y ddau ddiwrnod.

Y Sêr Arian (RLC) Y Tîm Arddangos Parasiwt y Fyddin Sêr Arian Brenhinol fydd yn dechrau'r diwrnod llawn bwrlwm, ac yna bydd Tîm Typhoon yr Awyrlu Brenhinol yn dilyn. Bydd Tîm Raven, y tîm Arddangos Erobatig, yn swyno’r torfeydd ddydd Sadwrn, cyn Hediad Goffa Brwydr Prydain yr Awyrlu Brenhinol, Calidus Autogyro, Arddangosfa Erobatig Steve Carver a diweddglo mawreddog gan Dîm Erobatig yr Awyrlu Brenhinol, y Saethau Cochion.

Bydd Hediad Coffa Brwydr Prydain yr Awyrlu Brenhinol yn cychwyn ddydd Sul, ac yna Arddangosfa Erobatig Steve Carver a Thîm Arddangos Parasiwt y Diafoliaid Coch. Bydd Tîm Typhoon yr Awyrlu Brenhinol yn rhuo i weithredu, ac yna'r Calidus Autogyro, L-39 Aviation a bydd y diwrnod yn dod i ben gan y Saethau Cochion.

Ar Ddydd Sadwrn o 5pm ymlaen, fydd bwyty 1891 a’r Teras yn cynnal parti dilynol yn theatr Pafiliwn y Rhyl, gyda cherddoriaeth fyw i ddawnsio gyda’r nos, bwyd blasus, coctels a golygfeydd godidog o Arfordir Gogledd Cymru.

Dywedodd Jamie Groves, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf: "Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl, yn edrych ymlaen at ddod â Sioe Awyr y Rhyl 'sy'n enwog yn y DU' yn ôl. Mae sioe Awyr y Rhyl yn cael ei hystyried yn un o'r digwyddiadau mwyaf anhygoel ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Mae Canol Tref y Rhyl a'r Arena Digwyddiadau yn fwrlwm o gyffro bob tro, ac mae cael y Saethau Cochion a'r Typhoon dros y ddau ddiwrnod yn anhygoel! Ni allwn aros i groesawu ymwelwyr a phobl leol i'r Rhyl ac arfordir Sir Ddinbych i fwynhau'r sioe arobryn hon."

Gall cefnogwyr hedfan archebu seddi unigryw ar Deras 1891 hefyd i wylio'r sioe ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, gyda'r pecynnau arian ac aur ar gael. Mae lleoedd yn gyfyngedig felly cynghorir pobl i archebu ymlaen llaw i osgoi cael eu siomi. Gallwch ddarganfod mwy ar wefan 1891rhyl.com neu ffoniwch Bafiliwn y Rhyl ar 01745 330000.





I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.denbighshireleisure.co.uk/cy/sioe-awyr-rhyl/

Nodyn i olygyddion: am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Angie Platt, Pennaeth Marchnata, Brand a Chysylltiadau Cyhoeddus Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar angie.platt@hamddensirddinbych.co.uk